



**Côd Ymddygiad
ar gyfer
Hysbysiadau Cosb
Presenoldeb Afreolaidd mewn
Ysgol/Darpariaeth Addysg
Amgen**

Sail Gyfreithiol a Rhesymeg

Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 Llywodraeth Cymru (LIC) yn nodi ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol (ALI), yn ôl y gyfraith, gydymffurfio ag Adran 444 Deddf Addysg 1996 a chynnwys hysbysiadau cosb fel un o'r ymyriadau i hyrwyddo gwell presenoldeb yn yr ysgol ac mewn darpariaeth amgen. "Mae hyn yn golygu bod yn rhaid rhoi sylw i'r canllawiau ac mae disgwyl iddynt gael eu dilyn oni bai bod rheswm da dros wro oddi wrthynt." (Dogfen Canllawiau 2013 t.3).

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon disgyblion yn yr ysgol yn ofyniad cyfreithiol ac yn hanfodol er mwyn i ddisgyblion fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Yn gyfreithiol, mae trosedd yn cael ei chyflawni os yw rhiant/gofalwr yn methu sicrhau bod ei blentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd/darpariaeth amgen ac nid yw'r absenoldeb wedi ei awdurdodi gan yr ysgol.

Yn ôl adran 444A ac adran 444B Deddf Addysg 1996 gellir ymdrin â rhai achosion o absenoldeb anawdurdodedig trwy gyflwyno hysbysiad cosb. Mae hysbysiad cosb yn ddirwy o hyd at £120 y gellir ei gyflwyno i riant/ofalwr plentyn sy'n absennol o'r ysgol/darpariaeth amgen yn rheolaidd.

Yr ALI sy'n rhan o ERW, Consortiwm y De-orllewin, sef Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Abertawe, Sir Gâr a Chastell-nedd Port Talbot, sy'n bennaf gyfrifol am ddatblygu'r protocol y bydd yr holl bartneriaid a enwir yn Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 yn gweithredu yn unol ag ef a bydd pob ALI yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn. Gall penaethiaid, gan gynnwys eu dirprwyon a awdurdodwyd a phenaethiaid cynorthwyol, a'r heddlu ofyn am hysbysiad cosb o ran rhiant/gofalwr plant sydd wedi bod yn absennol, heb ei awdurdodi, o ysgol/darpariaeth amgen. Wrth roi hysbysiadau cosb, mae'n rhaid cydymffurfio â holl ofynion y Ddeddf Hawliau Dynol a'r holl ddeddfwriaeth ym maes cyfle cyfartal.

Bydd yr ALI sy'n rhan o ERW yn parhau i ymchwilio i achosion o bresenoldeb afreolaidd mewn ysgol/darpariaeth amgen ac, yn dilyn gwaith achos priodol, byddant yn cychwyn camau cyfreithiol os yw'n briodol. Fodd bynnag, mae hysbysiadau cosb yn ddull ymyrryd cyflym y gall holl ALI ERW yn ei ddefnyddio i ymdrin ag absenoldeb rheolaidd cyn iddo fynd yn batrwm sefydlog. Cyflwynir hysbysiadau cosb yn seiliedig ar feini prawf trothwy clir a ddefnyddir mewn modd cyson a theg ar draws ERW. Bydd rhaid i unrhyw un sydd wedi'i awdurdodi i gyflwyno hysbysiad cosb (ac i wneud cais i un gael ei gyflwyno) gydymffurfio â'r canllawiau a nodir yn y côd ymddygiad hwn.

Cynhwysiad a Chydraddoldeb

Mae'r ALL yn ERW yn ymrwymedig i gynyddu cyflawniad eu holl ddisgyblion yn barhaus. Disgwylir y bydd ei holl ddisgyblion, ni waeth beth yw eu hamgylchiadau neu eu hanghenion, yn gallu manteisio ar eu hawl i ddysgu ac addysgu o safon. Felly, mae presenoldeb rheolaidd yn hollbwysig er mwyn i'n holl ddisgyblion lwyddo ac elwa o'r cyfleoedd a gyflwynir iddynt. Mae presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd yn hanfodol i ganiatáu i blant gyflawni eu potensial yn ystod y tymor ysgol. Mae presenoldeb rheolaidd hefyd yn sicrhau bod plant yn ddiogel ac mae'n lleihau'r cyfleoedd iddynt ymwneud â thriwanta a gweithgareddau gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â hyn.

Caiff rhieni/gofalwyr a disgyblion eu cefnogi ar lefel ysgol/darpariaeth amgen i oresgyn y rhwystrau i bresenoldeb rheolaidd a thrwy amrywiaeth eang o strategaethau asesu ac ymyrryd. Ni ddylid defnyddio cosbau o unrhyw fath oni bai bod cydweithrediad rhieni yn absennol o'r broses neu bernir nad yw'n ddigonol i ddatrys y broblem dan sylw. Mae'r gosb ychwanegol hon yn ddull o orfodi presenoldeb lle ceir disgwyliad rhesymol y bydd gwelliant yn deillio o'i defnyddio.

Polisi a Chyhoedduswydd

Er mwyn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn llwyr ymwybodol o'r ddeddfwriaeth ym maes hysbysiadau cosb, disgwylir y bydd pob ysgol, gyda chefnogaeth ei chorff llywodraethu, yn amlinellu gwybodaeth am hysbysiadau cosb yn glir yn ei pholisi presenoldeb ac yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig i rieni ar ddechrau pob blwyddyn academaidd (Atodiad 1).

O dan Adran 576 Deddf Addysg 1996 ystyr 'rhiant' yw:

- yr holl rieni naturiol, ni waeth a ydynt yn briod ai peidio;
- unrhyw berson, er nad yw'n rhiant naturiol, sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn;
- unrhyw berson, er nad yw'n rhiant naturiol, sydd â gofal am y plentyn.

Ystyriaethau cyfreithiol ymarferol

- Mae hysbysiad cosb yn £60 os caiff ei dalu o fewn 28 niwrnod i dderbyn yr hysbysiad
- Mae'n codi i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 niwrnod ond o fewn 42 ddiwrnod i dderbyn yr hysbysiad;

- Os na chaiff y gosb ei thalu'n llawn erbyn diwedd y 42 ddiwrnod rhaid i'r awdurdod lleol naill ai erlyn am y drosedd neu dynnu'r hysbysiad yn ôl.

Bydd yr erlyniad am y drosedd o fethu sicrhau presenoldeb rheolaidd y plentyn yn yr ysgol ac nid am beidio â thalu'r ddirwy. Bydd yr erlyniad o dan adran 444 Deddf Addysg 1996.

Gellir tynnu'r hysbysiad yn ôl dan amgylchiadau cyfyngedig yn unig fel y'u nodir yn y côd ymddygiad hwn.

Cyflwyno hysbysiad cosb

Er mwyn osgoi cyflwyno hysbysiadau cosb dyblyg, bydd pob ALI sy'n rhan o ERW yn llwyr gyfrifol am y trefniadau rheoli a phrosesu. Bydd swyddog a awdurdodwyd yn gallu defnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad cosb i un neu fwy o rieni/ofalwyr plentyn. Penderfynir ar sail amgylchiadau penodol pob achos.

Bydd pob ALI yn ymgynghori ag ysgolion a swyddogion yr heddlu lleol ac yn gweithio mewn partneriaeth â hwy i sicrhau y cydymffurfir â'r canlynol:

- mae'n rhaid bod y plentyn wedi'i gofrestru fel disgybl yn yr ysgol lle mae'r pennaeth neu ei ddirprwy awdurdodedig neu'r pennaeth cynorthwyol yn cyflwyno cais am yr hysbysiad cosb;
- gellir rhoi hysbysiad cosb ar gyfer absenoldeb heb ei awdurdodi yn unig; dylid rhoi hysbysiadau ar gyfer achosion y mae'r ALI yn gallu ac yn fodlon eu herlyn yn unig. Dylai'r ALI fod yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol i ddangos bod y rhiant/gofalwr wedi cyflawni trosedd o dan adran 444(1) Deddf Addysg 1996;
- ni ellir cyflwyno mwy na thri hysbysiad cosb i riant disgybl mewn cyfnod treigl o 12 mis;
- gellir rhoi hysbysiadau cosb ar gyfer mwy nag un plentyn yn achos teuluoedd lle mae presenoldeb mwy nag un plentyn yn wael;
- ni chyfyngir ar nifer y rhybuddion ffurfiol y gellir eu rhoi i riant ynghylch y posibilrwydd o dderbyn hysbysiad cosb;
- os yw rhywun sydd wedi derbyn hysbysiad cosb yn symud i ardal ALI arall yng Nghymru, bydd yr hysbysiad cosb yn symud gydag ef;
- ni ellir rhoi hysbysiadau cosb os yw achos cyfreithiol yn erbyn y rhiant/gofalwr o dan adran 444 Deddf Addysg 1996 wedi dechrau neu os ystyrir cymryd y cam hwn ar adeg y cais (Rheoliadau, adran 14 (b)).

Amgylchiadau cyflwyno hysbysiad cosb

Dylid dilyn y meini prawf allweddol canlynol:

- mae disgybl wedi colli o leiaf 10 sesiwn (pum niwrnod ysgol) oherwydd absenoldebau heb eu hawdurdodi yn ystod y tymor cyfredol ac, oherwydd hyn, mae ei bresenoldeb cyffredinol yn yr ysgol yn is na 90%

yn y flwyddyn ysgol hyd at y dyddiad hwnnw (nid oes angen i'r absenoldebau hyn fod yn olynol).

- mae disgybl wedi colli o leiaf 10 sesiwn (pum niwrnod ysgol) heb ei awdurdodi oherwydd gwyliau yn ystod y tymor ac mae'r absenoldebau'n golygu bod presenoldeb cyffredinol y disgybl yn yr ysgol yn is na 90% yn y flwyddyn ysgol hyd at y dyddiad hwnnw (nid oes angen i'r absenoldebau hyn fod yn olynol).
- mae disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn rheolaidd h.y. ar ôl i'r gofrestr gau (côd 'U' fel yn y Canllawiau i'r Codau 2010). Ystyr rheolaidd at ddiben y ddogfen hon yw cyrraedd yn hwyr am o leiaf 10 sesiwn mewn tymor; nid oes angen i'r rhain fod yn olynol ond dylent achosi i bresenoldeb cyffredinol y disgybl yn yr ysgol fod yn is na 90% yn y flwyddyn ysgol hyd at y dyddiad hwnnw.

Sylwer mai drwy'r post yn unig y caiff hysbysiadau cosb eu cyflwyno ac ni chânt byth eu cyflwyno fel cam sydyn e.e. yn ystod cyrch triwantiaeth. Bydd hyn yn galluogi swyddogion i sicrhau bod yr holl dystiolaeth angenrheidiol wrth law a bydd yn lleihau risgiau iechyd a diogelwch i unigolion.

Cais gan ysgol i gyflwyno hysbysiad cosb

Os yw ysgol wedi nodi cyfnod o absenoldeb heb ei awdurdodi, gall gyflwyno cais i'r ALI am hysbysiad cosb. Bob blwyddyn, gall penaethiaid awdurdodi eu dirprwyon a enwebwyd neu'r pennaeth cynorthwyol i gyflwyno ceisiadau am hysbysiadau cosb (atodiad 2)

Dylai gwaith papur yr ysgol gynnwys y canlynol:

- cadarnhad yr anfonwyd gwybodaeth at yr holl rieni ar ddechrau'r flwyddyn academaidd gan nodi'n glir y gellir cyflwyno hysbysiad cosb i rieni;
- os cyfeirir at wyliau yn ystod y tymor, cofnod o'r ffurflen cais am wyliau;
- copi o dystysgrif gofrestru'r disgybl;
- y ffurflen cais am hysbysiad cosb wedi'i chwblhau (Atodiad 3).

Ni chyflwynir hysbysiad cosb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (PDG) sy'n destun ymyriad parhaus gan yr ALI.

Cais gan rieni am wyliau yn ystod y tymor (heb ei awdurdodi gan yr ysgol)

Os bydd ysgol yn gofyn am hysbysiad cosb mewn ymateb i gais gan rieni am absenoldeb heb ei awdurdodi (absenoldeb heb ei awdurdodi ar gyfer gwyliau), ni fydd y llythyr o rybudd ffurfiol a'r cyfnod 15 niwrnod ar gyfer gwelliant yn gymwys.

Mae'n rhaid i ysgol ddarparu'r holl waith papur angenrheidiol cyn y bydd yr ALI yn ystyried cyflwyno hysbysiad cosb mewn ymateb i gais gan yr ysgol o ganlyniad i gais gan rieni am absenoldeb heb ei awdurdodi. Dylai'r gwaith papur hwn gynnwys:

- copi o'r wybodaeth a anfonwyd at yr holl rieni yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol sy'n nodi'n glir y gall rhieni dderbyn hysbysiad cosb;
- copi o'r ffurflen cais am wyliau a gyflwynwyd gan riant;
- tystysgrif bresenoldeb neu gofrestru'r disgybl dan sylw;
- ffurflen cais am hysbysiad cosb wedi'i chwblhau (Atodiad 3).

Gweithdrefn ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb

Bydd yr ALI yn ymateb i bob cais i gyflwyno hysbysiad cosb o fewn deng niwrnod ysgol i'w dderbyn a lle bo'n fodlon bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i darparu a'i bod yn briodol cyflwyno'r cais (Atodiad 4). Mae pob ALI sy'n aelodau o ERW yn bennaf gyfrifol am ddatblygu'r protocol y bydd yr holl bartneriaid a enwir yn Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 yn gweithredu yn unol ag ef a bydd pob ALI yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn. Gellir gwneud cais gan benaethiaid, eu dirprwyon a enwebwyd, yr heddlu ac awdurdodau lleol cyfagos. Mae'n rhaid i'r ALI sicrhau na fyddai cyflwyno hysbysiad cosb yn gwrthdaro ag unrhyw strategaeth ymyrryd cyfreithiol sy'n cael ei hystyried neu sydd eisoes ar waith o dan adran 444(1) neu adran 444 (A) y Ddeddf Addysg.

Dyma'r weithdrefn:

- Mae'r ALI yn derbyn cais am hysbysiad cosb a gwneir y gwiriadau perthnasol (Atodiad 3)
- Bydd yr ALI yn anfon rhybudd ysgrifenedig ffurfiol at y rhiant/gofalwr gan ei hysbysu y gall dderbyn hysbysiad cosb. Ni chaiff rhybudd ysgrifenedig ei anfon ar gyfer absenoldebau oherwydd gwyliau yn ystod y tymor (Atodiad 5).
- Bydd yr ALI yn pennu cyfnod o 15 niwrnod ysgol i ganiatáu i'r rhiant/gofalwr ymateb. Yn ystod y 15 niwrnod, byddai hawl gan y rhieni/gofalwyr i ddarparu unrhyw dystiolaeth y dymunant ei chyflwyno i'r ysgol, gan gynnwys tystiolaeth feddygol, i ddadlau na ddylid cyflwyno'r hysbysiad cosb.
- Y pennaeth/person a enwebwyd fydd yn penderfynu a ddylid derbyn y dystiolaeth a newid y gofrestr ai peidio.

Er enghraifft, os oes tystiolaeth feddygol i gyfiawnhau'r absenoldebau, mae'n bosib y bydd rhaid cywiro'r cofrestrï gan ddefnyddio'r còd priodol. Yn yr amgylchiadau hyn, ni chaiff yr awdurdod lleol gyflwyno'r hysbysiad cosb.

Os na ddarperir tystiolaeth, neu os nad yw'r pennaeth/person a enwebwyd yn derbyn yr absenoldebau, caiff yr ALI gyflwyno hysbysiad cosb drwy'r post dosbarth cyntaf (Atodiad 6);

- Os derbynnir taliad o £60 o fewn 28 o ddiwrnodau i dderbyn yr hysbysiad, ni chymerir camau pellach;
- Os na dderbynnir taliad o £60, bydd hyn yn cynyddu i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 o ddiwrnodau ond o fewn 42 o ddiwrnodau i dderbyn yr hysbysiad gwreiddiol;
- os derbynnir taliad o £120 o fewn 42 o ddiwrnodau i dderbyn yr hysbysiadau gwreiddiol, ni chymerir camau pellach;
- os na dderbynnir taliad, caiff yr achos naill ai ei dynnu'n ôl neu ei erlyn o dan adran 444 Deddf Addysg 1996.

Talu hysbysiad cosb

- Ceir manylion talu ar yr hysbysiad cosb.
- Ar ôl talu, mae'r rhiant/gofalwr wedi cyflawni ei atebolrwydd am y cyfnod dan sylw ac ni ellir ei erlyn ar ôl hynny o dan unrhyw bwerau gorfodi eraill (adran 444 Deddf Addysg 1996) ar gyfer yr un cyfnod a nodir yn yr hysbysiad.
- Bydd yr ALI yn cadw'r refeniw o hysbysiadau cosb i dalu costau gorfodi. Fodd bynnag, mae'n rhaid trosglwyddo unrhyw warged i Gronfa Gyfunol Cymru.
- Nid oes darpariaeth ar gyfer talu drwy randaliadau

Hysbysiad cosb heb ei dalu

Gall peidio â thalu hysbysiad cosb arwain at erlyniad o dan Adran 444 Deddf Addysg 1996.

Tynnu hysbysiad cosb yn ôl

Nid oes hawl statudol i apelio yn erbyn penderfyniad i gyflwyno hysbysiad cosb, ond os yw rhiant yn anghytuno â chyflwyno hysbysiad cosb, gall gyflwyno unrhyw gwynion i'r ALI a/neu ddewis wynebu achos yn Llys yr

Ynadon o dan adran 444 Deddf Addysg 1996 lle gellir trafod yr holl faterion sy'n ymwneud â'i hysbysiad cosb yn llawn.

Ar ôl cyflwyno hysbysiad cosb, ni fydd yr ALL yn ei dynnu'n ôl oni bai ei fod yn fodlon bod y canlynol yn wir:

- cyflwynwyd yr hysbysiad cosb i'r person anghywir;
- ni ddylid bod wedi cyflwyno'r hysbysiad cosb, h.y. ni chafodd ei gyflwyno yn unol â thelerau'r Côt Ymddygiad hwn neu ni chyflawnwyd trosedd;
- mae amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau ei dynnu'n ôl;
- mae'r hysbysiad yn cynnwys gwallau perthnasol.

Lle bo hysbysiad cosb wedi cael ei dynnu'n ôl yn unol â'r uchod, hysbysir derbynnydd yr hysbysiad a chaiff unrhyw swm a dalwyd ei ad-dalu i'r person a'i talodd. Ni fydd achos llys yn parhau neu'n cael ei gychwyn yn erbyn derbynnydd yr hysbysiad o ran y drosedd sy'n destun yr hysbysiad a dynnwyd yn ôl, neu am drosedd o dan adrannau 444(1)/444(1A) Deddf Addysg 1996, am drosedd sy'n deillio o'r un amgylchiadau.

Adolygiad ac adroddiad blynyddol

Bydd yr ALL yn gwerthuso effeithiolrwydd hysbysiadau cosb bob blwyddyn ac yn newid ei strategaeth gorfodi fel y bo'n briodol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i bennaeth y gwasanaeth.

Sut i gael mwy o wybodaeth

Mae mwy o wybodaeth am sut mae'r Côt Ymddygiad hwn a hysbysiadau cosb yn gweithredu yn Ninas a Sir Abertawe gan:

Yr Adran Addysg/Gwasanaethau Dysgu

Atodiadau

- Atodiad 1: Llythyr ysgol
- Atodiad 2: Ffurflen awdurdodi pennaeth
- Atodiad 3: Ffurflen cais am hysbysiad cosb
- Atodiad 4: Rhestr wirio'r ALL
- Atodiad 5: Rhybudd
- Atodiad 6: Llythyr hysbysiad cosb

Cyfeiriadau


Deddf Plant 1989 - diffiniad 'rhiant';

'Rhieni' a 'Chyfrifoldeb Rhiant' (Llywodraeth Cymru 2007) Deddf Addysg 1996
- adran 444;

Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013;

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (yr hawl i addysg,
Erthygl 28).

Atodiad 1



Neath Port Talbot County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Annwyl Riant/Warcheidwad,



Hysbysiadau Cosb - Absenoldeb o'r Ysgol heb ei Awdurdodi

Mae'r llythyr hwn yn eich hysbysu y caiff hysbysiadau cosb eu cyflwyno ar gyfer absenoldeb o'r ysgol heb ei awdurdodi o fis Ionawr 2015.

Mae Consortiwm ERW yn credu bod unrhyw absenoldeb o'r ysgol, ni waeth beth yw'r rheswm, yn niweidiol i gyfleoedd bywyd tymor hir plentyn, felly dylid ei osgoi os yw hynny'n bosib. Mae lleihau absenoldeb o'r ysgol yn flaenoriaeth allweddol, yn genedlaethol ac yn lleol, oherwydd bod colli ysgol yn niweidio lefelau cyflawniad plentyn, yn tarfu ar drefnau'r ysgol a gall olygu bod plentyn mewn perygl ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau ieuencid.

Mae Hysbysiad Cosb yn ddewis arall yn lle erlyniad, a'r nod yw sicrhau gwelliant ym mhresenoldeb y disgybl.

Gellir gwneud cais am Hysbysiad Cosb gan bennaeth, yr heddlu neu swyddog Gwasanaeth Lles Addysg yr awdurdod lleol ar gyfer absenoldeb o'r ysgol heb ei awdurdodi. Os yw'r rhiant/gofalwr yn darparu rheswm am yr absenoldeb, gall y pennaeth benderfynu ei dderbyn ai peidio a'i gofnodi'n briodol. Nid oes cyfyngiad ar nifer y rhybuddion ffurfiol y gellir eu rhoi.

Os oes cais am hysbysiad wedi'i gyflwyno, bydd y rhiant/gofalwr yn derbyn llythyr rhybudd sy'n rhoi 15 niwrnod iddynt ddarparu tystiolaeth i'r awdurdod bod rheswm dilys dros yr absenoldebau heb eu hawdurdodi ac y dylid newid y gofrestr. Os yw'r absenoldeb heb ei awdurdodi oherwydd gwyliau yn ystod y tymor, ni chaiff unrhyw rybudd ei anfon.

Os nad yw presenoldeb y disgybl yn yr ysgol yn gwella, **cyflwynir yr hysbysiad cosb. Bydd taliad o £60 yn ddyledus** i ddechrau, a gall hyn gynyddu i £120 os na chaiff ei dalu'n llawn o fewn 28 niwrnod. Os na chaiff y ddirwy ei thalu, bydd yr awdurdod lleol (ALI) yn ystyried **cymryd camau cyfreithiol yn erbyn y rhiant (rhieni)** o ran y drosedd wreiddiol, sef 'methu sicrhau presenoldeb rheolaidd y disgybl cofrestredig' o dan **Adran 444 (1) neu (1A) Deddf Addysg 1996**.

Cofiwch, os oes rhesymau dros absenoldeb eich plentyn o'r ysgol, gallwch ofyn am gefnogaeth ac arweiniad gan staff yn ysgol eich plentyn. Gofynnwch cyn i absenoldeb droi'n broblem.

Atodiad 2



Neath Port Talbot County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot



Adran Addysg

I'w gwblhau ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

Rwyf i _____, Pennaeth

Ysgol _____ drwy hyn yn awdurdodi:-

Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol yr ysgol a nodwyd uchod i gyflwyno ceisiadau am Hysbysiadau Cosb


- yn unol â **DEDDF ADDYSG 1996 (ADRAN 444 (1) a/neu (1A)/RHEOLIADAU ADDYSG (HYSBYSIADAU COSB (CYMRU) 2013/Côd Ymddygiad Lleol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Hysbysiadau Cosb Benodol Addysg.**

Llofnod: _____

Enw mewn llythrennau bras: _____

Dyddiad: _____

Atodiad 3



Neath Port Talbot County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot



CAIS AM HYSBYSIAD COSB RHEOLIADAU ADDYSG (HYSBYSIADAU COSB) (CYMRU) 2013

Rwy'n gofyn i'r Awdurdod Lleol (Gwasanaeth Lles Addysg) ystyried cyflwyno Hysbysiad Cosb i'r person a enwir isod fel rhiant (rhieni)/gofalwr o ddydd i ddydd* y disgybl canlynol. Gwneir y cais hwn yn unol â chôd ymddygiad ERW a chan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

- Collwyd o leiaf 10 sesiwn (pum niwrnod ysgol) oherwydd absenoldebau heb eu hawdurdodi yn ystod y tymor cyfredol sy'n golygu bod presenoldeb cyffredinol y disgybl yn yr ysgol yn is na 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn. (Nid oes rhaid i'r absenoldebau hyn fod yn olynol)
- Absenoldebau heb eu hawdurdodi yn ystod o leiaf 10 sesiwn (pum niwrnod ysgol) oherwydd gwyliau yn ystod y tymor os yw hyn yn golygu bod presenoldeb cyffredinol y disgybl yn yr ysgol yn is na 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn. (Nid oes rhaid i'r absenoldebau hyn fod yn olynol)
- Cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn rheolaidd, h.y. ar ôl i'r gofrestr gau, côd 'U' fel yn nogfen canllawiau 2010. Ystyr rheolaidd at ddiben y ddogfen hon yw cyrraedd yn hwyr am o leiaf 10 sesiwn y tymor; nid oes rhaid i'r rhain fod yn olynol ac mae'n golygu bod presenoldeb cyffredinol y disgybl yn yr ysgol yn is na 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn.
- Nid yw rhieni/gofalwyr wedi cydweithio â'r ysgol/a neu'r GLIA mewn ymdrechion i wella presenoldeb.
- Nid yw'n debygol y bydd erlyniad yn y llys.

Y cyfnod pan gyflawnwyd y drosedd: _____ tan _____

Presenoldeb ar adeg cyflwyno'r cais: _____% (heb gynnwys absenoldebau a awdurdodwyd).

Manylion y Disgybl

Enw'r Disgybl: _____ Dyddiad Geni _____

Cyfeiriad:

Enw llawn Rhiant/Gofalwr 1:

Cyfeiriad os yw'n wahanol i'r uchod:

Enw llawn Rhiant/Gofalwr 2: _____

Cyfeiriad os yw'n wahanol i'r uchod:

(Wrth gyfeirio at blentyn neu berson ifanc, mae 'rhiant' yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n rhiant y plentyn ond y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn neu'r person ifanc neu sy'n gofalu amdano o ddydd i ddydd).

Nodwch yn gryno y camau gweithredu a gymerwyd gan yr ysgol mewn ymateb i'r pryder ynghylch presenoldeb.

Nodwch a yw'r teulu'n adnabyddus i wasanaethau eraill, e.e. Gwasanaethau Plant, y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, Tîm am y Teulu (TAT) etc.

A oes unrhyw amgylchiadau hysbys y dylid eu hystyried, e.e. AAA, iechyd meddwl rhiant, profedigaeth, cam-drin yn y cartref, cyfrifoldebau gofalwr ifanc?

Oes Nac oes

Os oes, rhwch fanylion llawn:

Atodiadau gofynnol

- Tystysgrif gofrestru
- Cais gan y rhieni am absenoldeb heb ei awdurdodi oherwydd gwyliau


Datganiad y Pennaeth

- Rwy'n ardystio bod corff llywodraethu'r ysgol hon wedi adolygu ei bolisi presenoldeb ac wedi cytuno y gellir gwneud ceisiadau i'r awdurdod lleol am gyflwyno hysbysiadau cosb yn unol â chôd ymddygiad yr awdurdod lleol;
- Cadarnhaf na fyddai gweithredu yn y modd hwn yn gwrthdaro â strategaethau ymyrryd eraill sydd ar waith neu fesurau gorfodi eraill sy'n cael eu prosesu;
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw amgylchiadau eithriadol i'w hystyried wrth wneud y cais hwn.

Llofnod _____ Dyddiad _____

Ysgol _____

Atodiad 4



Neath Port Talbot County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot



CAIS AM HYSBYSIAD COSB RHESTR WIRIO ABSENOLDEB HEB EI AWDURDODI'R GLIA

Dyddiad derbyn y cais am hysbysiad cosb: _____

Enw'r Disgybl _____

Ysgol _____

Enw'r person sy'n gofyn am yr Hysbysiad Cosb _____

Enw'r person â

Gofal o ddydd i ddydd (1)

Gofal o ddydd i ddydd (2)

I fodloni'r meini prawf:

1. Ydy'r person a enwir uchod wedi derbyn Hysbysiad Cosb o'r blaen?

Gofalwr dyddiol (1) Ydy Nac ydy Dyddiad y cyflwynwyd: _____

Gofalwr dyddiol (2) Ydy Nac ydy Dyddiad y cyflwynwyd: _____

2. Beth yw presenoldeb y disgybl yn y 12 mis cyn yr absenoldeb heb ei awdurdodi diwethaf: _____% (heb gynnwys absenoldebau a awdurdodwyd)

3. Pa ymyriadau/cynigion o gefnogaeth a roddwyd ar waith gan yr ysgol er mwyn osgoi'r cais hwn (rhowch amlinelliad o ymgysylltu â'r rhieni):

4. Ydy'r achos yn agored yn y Gwasanaeth Lles Addysg:

Ydy Enw'r SLIA: _____ Nac ydy

Os ydy, rhowch grynodedb o'r achos a'r camau gweithredu hyd yn hyn:

5. Ydy'r canlynol yn wir:

- Collwyd o leiaf 10 sesiwn (pum niwrnod ysgol) oherwydd absenoldebau heb eu hawdurdodi yn ystod y tymor cyfredol sy'n golygu bod presenoldeb cyffredinol y disgybl yn yr ysgol yn is na 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn. (Nid oes rhaid i'r absenoldebau hyn fod yn olynol)
- Cafwyd absenoldebau heb eu hawdurdodi yn ystod o leiaf 10 sesiwn (pum niwrnod ysgol) oherwydd gwyliau yn ystod y tymor os yw hyn yn golygu bod presenoldeb cyffredinol y disgybl yn yr ysgol yn is na 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn. (Nid oes rhaid i'r absenoldebau hyn fod yn olynol)
 - Ydy'r rhiant wedi cyflwyno ffurflen cais ERW am absenoldeb wyliau heb ei awdurdodi ar gyfer gwyliau? Ydy Nac ydy
- Cyrraedd ysgol yn hwyr yn rheolaidd h.y. ar ôl i'r gofrestr gau, côd 'U' fel yn Nogfen Canllawiau Codau 2010. Ystyr rheolaidd at ddiben y ddogfen hon yw cyrraedd yn hwyr am o leiaf 10 sesiwn y tymor; nid oes rhaid i'r rhain fod yn olynol ac mae'n golygu bod presenoldeb cyffredinol y disgybl yn yr ysgol yn is na 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn.
- Nid yw'r rhieni/gofalwyr wedi cydweithio â'r ysgol/a neu'r GLIA mewn ymdrechion i wella presenoldeb.
- Nid yw'n debygol y bydd erlyniad yn y llys.

Camau Cyfreithiol

10. Ydy'r rhiant/gofalwr hwn wedi cael ei erlyn yn y 12 mis diwethaf
Dyddiad:

Canlyniad: _____

Ydy rhybudd cynnar wedi cael ei anfon? YDY Dyddiad..... NAC YDY

Ydy rhybudd swyddogol wedi cael ei anfon?: YDY Dyddiad.....
NAC YDY

Hysbysiad Cosb – Gweithredu'r GLIA:

A oes cyfeiriad priodol wedi'i wneud:

OES Dyddiad: _____

NAC OES Dyddiad a'r rheswm dros beidio â'i dderbyn. _____

Dyddiad anfon y llythyr rhybudd (nid ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor):

Dyddiad adolygu (15 niwrnod ar ôl anfon rhybudd): _____

Dyddiad cyflwyno Hysbysiad: _____ **CYF. YR HYSBYSIAD** _____

Dyddiad ar ôl 28 niwrnod: _____

Dyddiad ar ddiwedd yr Hysbysiad: _____


Hysbysiad wedi'i dalu: YDY Cau'r achos.

NAC YDY Trafod opsiynau erlyn gyda'r uwch SLIA

Unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r achos hwn;

Presenoldeb y disgybl ar ddiwedd y flwyddyn academaidd:

Atodiad 5



Neath Port Talbot County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot



DEDDF ADDYSG 1996 (ADRAN 444 (1) AC (1A)) RHEOLIADAU ADDYSG (HYSBYSIADAU COSB) (CYMRU) 2013 HYSBYSIAD RHYBUDDIO

Annwyl Mr/Mrs/Ms

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod cais wedi'i wneud am gyflwyno Hysbysiad Cosb i chi yn unol â'r rheoliadau uchod.

Yn ôl Côd Ymddygiad Consortiwm ERW, mae Hysbysiadau Cosb yn cael eu hystyried yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae disgybl wedi colli o leiaf 10 sesiwn (pum niwrnod ysgol) oherwydd absenoldeb heb ei awdurdodi yn ystod y tymor cyfredol sy'n golygu bod y presenoldeb cyffredinol yn is na 90% yn ystod y flwyddyn ysgol hyd yn hyn. Does dim rhaid i'r absenoldebau hyn fod yn olynol.
- Mae disgybl wedi bod yn absennol, heb ei awdurdodi, am o leiaf 10 sesiwn (pum niwrnod ysgol) oherwydd gwyliau yn ystod y tymor os yw hynny'n golygu fod ei bresenoldeb cyffredinol yn yr ysgol yn is na 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn. Does dim rhaid i'r absenoldebau hyn fod yn olynol.
- Cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn rheolaidd, h.y. ar ôl i'r gofrestr gau, sy'n cael ei gofnodi'n gôd 'U' yn ôl canllawiau LIC ar godau 2010. At ddiben y ddogfen hon, mae cyrraedd yn hwyr yn rheolaidd yn golygu cyrraedd yn hwyr o leiaf 10 niwrnod mewn tymor; does dim rhaid i'r adegau hyn fod yn rhai olynol ond dylent achosi i bresenoldeb cyffredinol y disgybl yn yr ysgol fod yn is na 90% yn y flwyddyn ysgol gyfredol hyd yn hyn.

Gofynnir i chi ddarparu unrhyw dystiolaeth angenrheidiol i esbonio'r rheswm dros absenoldebau anawdurdodedig eich plentyn i'r ysgol o fewn 15 niwrnod. Y pennaeth/person a enwebwyd fydd yn penderfynu a gaiff y dystiolaeth ei derbyn a'r gofrestr ei newid. Er enghraifft, os oes dystiolaeth feddygol i esbonio'r absenoldebau, gellir cywiro'r cofrestr gan ddefnyddio'r côd priodol. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fydd yr awdurdod lleol yn cyflwyno'r hysbysiad.

Os nad ydych yn darparu dystiolaeth, neu os nad yw'r pennaeth/person a enwebwyd yn derbyn y dystiolaeth ac yn newid y gofrestr i ddileu'r absenoldebau heb eu hawdurdodi, yna bydd yr awdurdod lleol yn cyflwyno hysbysiad cosb.

Os hoffech gyflwyno unrhyw dystiolaeth, mae angen ei derbyn o fewn 15 niwrnod i ddyddiad y llythyr hwn a dylech ei hanfon at:

Mrs Lesley Matthews, Uwch Swyddog Lles Addysg, Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ

Os hoffech drafod y rhybudd hwn ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â mi.


Yr eiddoch yn gywir,

<NAME>

Uwch Swyddog Lles Addysg

Tudalen | 19

Atodiad 6



Neath Port Talbot County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot



ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through
Regional Working

FPN 1

Cyfeirnod: CNPT.....

Adran Addysg

HYSBYSIAD COSB

DEDDF ADDYSG 1996, ADRAN 444A
RHEOLIADAU ADDYSG (HYSBYSIADAU COSB) (CYMRU) 2013
CBS Castell-nedd Port Talbot, Côd Ymddygiad Cyfreithiol ar gyfer
Hysbysiadau Cosb oherwydd Presenoldeb Ysgol Afreolaidd

Rhan 1

Os yw plentyn oed ysgol, sydd wedi'i gofrestru fel disgybl mewn ysgol, yn methu mynychu'r ysgol/darpariaeth amgen yn rheolaidd, mae rhiant/gofalwr y plentyn yn euog o drosedd o dan adran 444A Deddf Addysg 1996.

Teitl: _____

Enwau blaen: _____

Enw'r Plentyn: _____

O (cyfeiriad);

Côd Post: _____

Chi yw rhiant/gofalwr _____ o
_____ (cyfeiriad) sydd wedi'i gofrestru fel disgybl yn
(enw'r ysgol/darpariaeth addysgol amgen) _____ ac nid yw'n
mynychu'r ysgol yn rheolaidd, sef:

Rhwng diwrnod cyntaf absenoldeb anawdurdodedig ar (dyddiad) _____ tan ddiwrnod olaf absenoldeb (dyddiad) nid oedd y disgybl yn yr ysgol yn rheolaidd gan achosi i bresenoldeb cyffredinol eich plentyn yn yr ysgol ostwng i lai na 90% oherwydd absenoldebau anawdurdodedig

Mae'r Hysbysiad hwn yn rhoi cyfle i chi dalu dirwy yn hytrach na chael eich erlyn am y drosedd a nodir uchod. Dylech dalu £60 o fewn 28 niwrnod i ddyddiad yr hysbysiad hwn. Os ydych yn talu'r ddirwy hon o fewn y terfynau amser a nodir isod, byddwch yn cyflawni'ch atebolrwydd am y drosedd ac ni chymerir camau pellach yn eich erbyn mewn cysylltiad â'r drosedd hon a nodwyd yn yr Hysbysiad hwn.

- Dylech dalu o fewn 28 niwrnod, h.y. erbyn **XXX** dyddiad
- Os yw'n cael ei thalu ar ôl 28 niwrnod ond o fewn 42 ddiwrnod, h.y. erbyn **XXXX** dyddiad, bydd y ddirwy yn dyblu i £120.

Dylech dalu **CBS Castell-nedd Port Talbot**. Gellir talu **dros y ffôn drwy gerdyn credyd neu ddebyd**. Ffoniwch _____ ar _____. Dylid gwneud sieciau neu archebion post yn daladwy i **'CBS Castell-nedd Port Talbot'** a'u hanfon i _____ (manylion cyfeiriad ac oriau agor), gan nodi'n glir ar y cefn, rhif yr Hysbysiad o Gosb Benodol, sef **FPN1 CNPT (xxxx)**

Neu gallwch dalu'n bersonol yn y Ganolfan Gyswllt yn **XXXXXXXXXXXX**. Bydd angen i chi ddarparu rhif eich hysbysiad o gosb benodol wrth dalu.

Os na dderbynnir taliad erbyn **<dyddiad a nodwyd>** (42 ddiwrnod i dderbyn), gallwch gael eich erlyn am y drosedd a chael dirwy o hyd at £1000 o dan adran 444 (1) a £2,500 o dan adran 444 (1A) neu hyd at dri mis o garchar.

Ni dderbynnir taliadau hwyr na rhandaliadau.

Tynnu hysbysiad yn ôl

Ni fydd y GLIA (Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd) yn tynnu'r hysbysiad hwn yn ôl oni bai ein bod yn fodlon bod y canlynol yn wir:

1. Cafodd yr Hysbysiad Cosb ei gyflwyno i'r person anghywir;
2. Ni ddylid bod wedi cyflwyno'r Hysbysiad Cosb, h.y. ni chafodd ei gyflwyno yn unol â thelerau'r Côd Ymddygiad hwn (neu ni chyflawnwyd unrhyw drosedd); neu os yw amgylchiadau'r achos yn cyfiawnhau ei dynnu'n ôl.
3. Os ydych chi'n credu bod yr hysbysiad wedi'i gyflwyno i chi mewn camgymeriad, mae'n rhaid i chi gysylltu â CBS Castell-nedd Port Talbot cyn gynted â phosib i ofyn iddo gael ei dynnu'n ôl. Dylech nodi pam rydych chi'n credu bod yr hysbysiad wedi'i gyflwyno'n anghywir. Bydd Castell-nedd Port Talbot yn ystyried eich cais ac yn cysylltu â chi i'ch hysbysu a yw'r hysbysiad yn cael ei dynnu'n ôl ai peidio. Os na chaiff yr hysbysiad ei dynnu'n ôl ac os nad ydych yn talu, gallwch gael eich erlyn am y drosedd.

Cyflwynir yr hysbysiad hwn gan [enw a manylion y swyddog].

Llofnod: _____

Swydd: _____

Dyddiad cyflwyno _____

.....

Rhan 2

Cwblhewch y rhan isod a dychwelwch yr hysbysiad hwn gyda'ch taliad i CBS
Castell-nedd Port Talbot; **XXXX**, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ

Enw:

Cyfeiriad

Atodaf daliad o £<swm>

Llofnod

Dyddiad _____

.....

Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr hysbysiad hwn, cysylltwch â'r:

Gwasanaeth Lles Addysg

(**Cyfeiriad yr ysgol yma**)

FFÔN: **XXXXXXXX**

